

Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru



**Cymru
Wrth-hiliol**

**An Anti-Racist
Wales**

YMGYNGHORIAD I BOBL IFANC

Rydyn ni
am i bawb yng Nghymru gael eu
trin yn deg
ac i gael **cyfle cyfartal**
mewn bywyd . . .

Mae angen eich help chi arnon ni

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 4
Pam mae angen newid pethau	Tudalen 5
Ein cynllun	Tudalen 6
Edrych tua'r dyfodol - sut olwg fydd ar 2030?	Tudalen 7
Pa newidiadau sydd eu hangen i hyn weithio? - Ein prif nodau	Tudalen 9
Oes angen i ni newid y geiriau rydyn ni'n eu defnyddio?	Tudalen 13
Gofalu am wybodaeth amdanoch chi. (GDPR)	Tudalen 15



Rydyn ni am i bawb yng Nghymru gael eu trin yn deg ac i gael cyfle cyfartal mewn bywyd.

Mae delio â hiliaeth yn bwysicach nag erioed.

Ein gweledigaeth ni yw creu Cymru wrth-hiliaeth falch. Lle mae pawb yn cael eu trin fel dinasyddion cyfartal.

Hiliaeth yw'r term am drin pobl yn wael neu'n annheg ar sail eu hil. Pan fydd rhywun yn defnyddio geiriau neu weithredoedd i wahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd lliw eu croen, eu hiaith, eu crefydd neu eu diwylliant.

Rydyn ni am i hawliau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael eu parchu.

Lleiafrif ethnig neu bobl o leiafrifoedd ethnig yw grŵp o bobl sy'n byw yn rhywle lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl o hil wahanol iddyn nhw. Ac fel arfer, mae nifer llai ohonyn nhw. Mae'n cynnwys rhai cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda llawer o grwpiau a sefydliadau gwahanol, wedi datblygu cynllun ar sut i greu Cymru sy'n wrth-hiliaeth.

Gweithredoedd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg yw gwrth-hiliaeth. Mae'n golygu edrych yn fwy manwl ar ein cynlluniau, ein rheolau a'n polisiau i wneud yn siŵr eu bod yn deg ar gyfer lleiafrifoedd ethnig, sydd o fudd i bawb.

Rydyn ni'n gobeithio eich bod chi'n awyddus hefyd, ac rydyn ni am i chi roi gwybod i ni os ydych chi'n meddwl ein bod ni'n gwneud pethau'n iawn.

Er mwyn i newidiadau fod yn llwyddiannus, mae angen i ni ddilyn camau penodol. Mae angen i ni:

- Wybod pam mae'n rhaid i rywbeth newid
- Deall lle rydyn ni am gyrraedd (beth ddylai'r canlyniad fod)
- Cytuno ar ba newidiadau fydd yn ein helpu ni i gyrraedd y nod
- Penderfynu ar y ffordd orau i sicrhau'r newidiadau hynny

Fel rhan o hyn, mae angen i ni wrando a siarad a dod at ein gilydd i gytuno ar y ffordd orau i ddatblygu

Ac rydych chi'n rhan o'r broses!

Pam mae angen newid pethau

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn dioddef llawer o hiliaeth, ac maen nhw'n aml yn cael eu trin yn annheg a ddim yn cael yr un manteision â phobl eraill. Pan rydyn ni wedi siarad â phobl o leiafrifoedd ethnig, maen nhw wedi dweud bod angen i bethau newid.

Mae pobl yn gallu bod yn hiliol mewn llawer o ffyrdd.

Er enghraifft, oherwydd: • Ymddygiad • Agwedd • Anwybodaeth

Mae pethau fel hyn yn gallu golygu nad yw pobl yn cael eu trin yn gyfartal neu yn deg, ac yn methu â gwneud dim byd am y peth. Gallai hyn olygu bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu trin fel 'pobl o'r tu allan', neu'n llai pwysig na phobl wynion. Mae pryderon wedi'u codi hefyd nad oes digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddelio â hiliaeth.

Braint pobl wynion

Weithiau, nid yw rhai pobl yn sylweddoli bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yn wahanol.

Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod bywyd yn gallu bod yn haws pan fyddwch chi'n wyn. Hyd yn oed os yw rhywun croenwyn wedi wynebu llawer o heriau yn eu bywyd, nid yw lliw eu croen yn gwneud pethau'n anoddach. Yr enw ar hyn yw braint pobl wynion. Rydyn ni'n credu y bydd gwneud pethau'n wahanol ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig yn gwneud pethau'n fwy teg ac yn well i bawb.

This is where you come in.

Rydyn ni am glywed eich barn am hiliaeth a'r cynllun rydyn ni'n ei ddatblygu.

Mae dros 50,000 o eiriau yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru! Rydyn ni wedi creu rhywbeth byrrach i chi ei ddarllen, ac mae'r cwestiynau yn y blychau yn bethau rydyn ni wir am glywed eich barn chi amdany'n nhw.

Os ydych chi am weld y cynllun cyfan, dyma chi: Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Mae crynodeb o'r cynllun hefyd ar gael a fersiwn hawdd ei ddarllen sydd ar gael yma:

- C1** A: Pa broblemau ydych chi'n meddwl y byddwn ni'n eu cael wrth wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol?
B: Ydych chi wedi dioddef hiliaeth neu wedi cael eich trin yn annheg neu weld rhywun arall yn dioddef?

Ein cynllun

Sut cafodd y cynllun ei greu

Y Gweinidog yn y Senedd sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb ar ran Llywodraeth Cymru yw Jane Hutt. Gofynnodd hi i ni greu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol uchelgeisiol a radical.

Gofynnodd i Athro o Brifysgol Caerdydd, sef yr Athro Emmanuel Ogbonna a'r Fonesig Shan Morgan, sy'n rhedeg Llywodraeth Cymru, i arwain grŵp am hyn.

Maen nhw wedi rhoi llawer o syniadau gan gymunedau a sefydliadau at ei gilydd er mwyn helpu gyda'r gwaith yma.

Nawr, rydyn ni am i chi roi eich barn am sut i wella'r syniadau yma.

Mae'r Senedd yn cynnwys 60 o Aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'n deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru a sut dylid gwario'r arian, ac yn cadw golwg ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Sut rydyn ni am i'r dyfodol edrych

Gweledigaeth: Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030

- Rydyn ni am weithio gyda'n gilydd, fel pobl wyn a phobl o leiafrifoedd ethnig, i wneud newidiadau ar y cyd i wella Cymru.
- Rydyn ni am gael dealltwriaeth gytûn, a chytuno ar gamau er mwyn taclo hiliaeth.
- Rydyn ni am ddathlu'r gwahaniaethau a'r pethau tebyg rhwng cymunedau lleiafrifoedd ethnig, lle rydyn ni'n unedig ac nid yn cael ein gwahanu gan y pethau sy'n ein gwneud ni'n wahanol.

C2 Ydych chi'n cytuno gyda'n gweledigaeth i gael Cymru wrth-hiliol erbyn 2030?

Edrych tua'r dyfodol - sut olwg fydd ar 2030?

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn cytuno, dyma restr o'r pethau rydyn ni am eu gweld yn digwydd **er mwyn lleihau hiliaeth erbyn y flwyddyn 2030**

- Newidiadau go iawn, nid dim ond addewidion
- Parchu gwahaniaethau pobl
- Gwrando a gweithredu ar beth mae rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a menywod o leiafrifoedd ethnig wedi'i ddweud.

Gall pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr ddod o gefndiroedd gwahanol, gwledydd gwahanol neu ddiwylliannau gwahanol. Mae rhai'n byw mewn tai, rhai ar safleoedd arbennig ac mae rhai yn symud o le i le.

- Gadael microymosodiadau yn y gorffennol

Ystyr microymosodiad yw dweud neu wneud rhywbeth sy'n hiliol mewn ffordd hamddenol, er enghraifft llongyfarch myfyrwyr Du, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig am fod â "Saesneg neu Gymraeg da".

- Bod yn hyderus o ran herio pethau drwy ofyn cwestiynau a pheidio ag osgoi trafod hiliaeth rhag ofn i ni ddweud y peth anghywir.
- Gwneud yn siŵr ein bod wedi gwneud beth roedden ni'n dweud roedden ni'n mynd i'w wneud, a gwneud yn siŵr bod sefydliadau eraill mae'r llywodraeth yn rhoi arian iddyn nhw wedi gwneud beth roedden nhw'n addo ei wneud.
- Gwneud yn siŵr bod uwch arweinwyr yn cael yr hyfforddiant cywir am wrth-hiliaeth.
- Sicrhau cydbwysedd o bobl o wahanol gefndiroedd drwy ddefnyddio ffyrdd teg o gyflogi staff.
- Gwrando ar brofiadau byw pobl a gweithio gyda'n gilydd i stopio'r broblem.
- Cydnabod nad cyfrifoldeb pobl Dduon, Asiaidd na Lleiafrifoedd Ethnig yw delio â hiliaeth.
- Gwneud yn siŵr bod Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfau cydraddoldeb eraill yn cael eu dilynd.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud na ddylid cael dim gwahaniaethu - y dylai pawb gael eu trin yn gyfartal. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw grŵp o nodweddion sydd wedi'u gwarchod. Sef:

Priodas neu bartneriaeth sifil	Crefydd neu gred	Rhywedd
Beichiogrwydd a mamolaeth	Anabledd	Oedran
Cyfeiriadedd rhywiol	Rhyw	Hil

Rydyn ni i gyd yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau yma, er enghraifft, mae gan bob un ohonon ni hil ac oedran penodol.

- Gwneud yn siŵr bod problemau a chwynion yn cael eu datrys yn gywir ac ein bod ni'n gwrando ar bobl.

Erbyn 2030, bydd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gweld:

- Ein bod ni wedi stopio troseddau casineb yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol

Ystyr trosedd casineb yw pan fydd rhywun yn aflonyddu neu'n ymosod ar rywun arall oherwydd eu bod nhw'n meddwl eu bod nhw'n wahanol.

- Y Prif Weinidog Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig cyntaf yn ei le
- Bod hiliaeth yn cael ei herio
- Yn glir sut mae modd i bobl o leiafrifoedd ethnig ddatblygu yn eu gyrfaeodd
- Athrawon yn delio'n briodol gyda chwynion am hiliaeth a throseddau casineb, ac yn eu cymryd o ddifri
- Bod hiliaeth mewn chwaraeon ac ar y cyfryngau yn cael ei daclo

Erbyn 2030, bydd oedolion Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig:

- Yn gweld nad oes rhaid iddyn nhw ddelio â hiliaeth mewn cymdeithas.
- Yn gweld bod ein holl ffyrdd o fyw gwahanol yn cael eu cydnabod ac yn cael eu gwarchod.
- Ddim yn teimlo'n bryderus am hiliaeth rhagor.
- Ddim yn gorfod gorymdeithio er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.
- Yn cael y gwasanaethau cywir ar gyfer anghenion pobl.
- Yn cael eu hystyried fel Cymry, yn hytrach na gorfod dioddef y cwestiwn "O ble ydych chi'n dod?".
- Yn gwybod eu bod nhw'n cael eu recriwtio oherwydd eu sgiliau.

C3 Beth arall hoffech chi weld yn digwydd i leihau hiliaeth erbyn 2030?
Beth arall fyddai'n helpu i greu Cymru wrth-hiliol? Dywedwch wrthon ni yn y blwch isod.

Pa newidiadau sydd eu hangen i hyn weithio? Ein prif nodau

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, rydyn ni wedi creu 13 o feysydd gwahanol i ganolbwyntio arnyn nhw. Rydyn ni wedi dewis y prif feysydd rydyn ni'n meddwl y byddech chi am rannu eich syniadau amdanyn nhw.

Nodau ar gyfer Addysg

Yn ôl yr wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu mae myfyrwyr yn profi hiliaeth ac anghydraddoldeb yn yr ysgol ac mewn addysg bellach. Dyma un o'r prif bethau fydd yn cael ei ddysgu drwy'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Bydd y nodau yma'n edrych ar feysydd fel:

- Gwella profiadau disgyblion ac athrawon Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ysgol drwy ddilyn ffordd o weithio sy'n gynhwysol ac yn wrth-hiliol.
- Gwella amrywiaeth yr athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion.

Ystyr amrywiaeth yw deall bod pawb yn unigryw. Gall y gwahaniaethau yma gynnwys hil, rhywedd, ethnigrwydd, crefydd neu ddiwylliant.

- Rhoi gwersi am wrth-hiliaeth ac amrywiaeth mewn ysgolion.
- Ymateb yn well i fwlio ar sail hil, diwylliant neu grefydd. Sicrhau bod disgyblion sy'n dioddef hiliaeth yn cael eu cefnogi er mwyn gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n colli allan ar yr ysgol ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.
- Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gael addysg Gymraeg.
- Gwneud yn siŵr bod y Cwricwlwm i Gymru newydd yn annog dealltwriaeth o amrywiaeth a'r angen i herio ymddygiad hiliol.

C4 Ydych chi'n cytuno gyda'n nodau Addysg?

Allwch chi feddwl am nodau eraill? Dywedwch wrthon ni yn y blwch isod.

Nodau ar gyfer Chwaraeon, Diwylliant a'r Celfyddydau

Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cael cyfle i ymlacio a chymryd rhan mewn ystod eang o gampau a gweithgareddau diwylliannol ac artistig. Mae'n rhan bwysig o iechyd a lles.

Bydd y nodau yma'n edrych ar feysydd fel:

- Gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn dilyn ein cynlluniau ar gyfer cyrraedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Dathlu'r holl bethau sy'n ein gwneud ni'n wahanol yng Nghymru.
- Bod yn onest am ein hanes.
- Ei gwneud hi'n haws i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'i chael hi'n anodd yn y gorffennol.
- Cael gwared ar hiliaeth mewn chwaraeon, gan gynnwys chwaraeon ar lefel leol.

C5 Ydych chi'n cytuno gyda'n nodau Chwaraeon, Diwylliant a'r Celfyddydau?
Allwch chi feddwl am nodau eraill? Dywedwch wrthon ni yn y blwch isod.

Gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ac wedi pennu targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Bydd y nodau yma'n edrych ar feysydd fel:

- Annog rhagor o bobl o leiafrifoedd ethnig i ddysgu Cymraeg. Eu cefnogi i wella'u sgiliau Cymraeg.
- Cynnal rhagor o ddigwyddiadau diwylliannol a Chymraeg i annog pobl i ddefnyddio'r iaith.
- Cynnal ymchwil am siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

C6 Beth arall allwn ni ei wneud er mwyn codi proffil y Gymraeg?
Allwch chi feddwl am nodau eraill? Dywedwch wrthon ni yn y blwch isod.

Dyma rai o feysydd eraill gwaith Llywodraeth Cymru a'r newidiadau hoffon ni eu gweld:

Nodau ar gyfer Iechyd

Mae'r rhain yn edrych ar feysydd fel:

- Gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth iechyd yn wrth-hiliol.
- Bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.
- Bod y cyhoedd yn cael gofal iechyd cyfartal sy'n diwallu eu hanghenion.

Nodau ar gyfer Tai

Mae'r rhain yn edrych ar feysydd fel:

- Gwneud yn siŵr bod tai ar gael sy'n diwallu anghenion gwahanol bobl.
- Bod tai cymdeithasol a thai newydd yn diwallu anghenion teuluoedd lleiafrifoedd ethnig a theuluoedd o wahanol genedlaethau.
- Gwneud yn siŵr bod mwy o arweinwyr sy'n gweithio gyda thai yn dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- gwneud yn siŵr bod gwasanaethau tai yn wrth-hiliol ac yn trin pobl yn deg ac yn gyfartal.
- Gwneud yn siŵr bod digon o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Nodau ar gyfer trosedd, cyfiawnder a thegwch

Mae'r rhain yn edrych ar feysydd fel:

- Sicrhau bod Cymru yn wlad wrth-hiliol.
- Cefnogi dioddefwyr digwyddiadau hiliol a throeddau casineb.
- Cefnogi cymunedau i ddod o hyd i waith fel bod llai o densiwn rhwng gwahanol grwpiau.
- Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n cyrraedd y system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, dim ots o ble maen nhw'n dod.
- Sicrhau bod mwy o bobl Dduon, Asiaidd ac o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig yn gweithio ym maes cyfiawnder troseddol.
- Gwneud yn siŵr bod y cymorth iawn ar gael i fenywod, o leiafrifoedd ethnig yn enwedig, sy'n dioddef trais.



Nodau ar gyfer yr Amgylchedd

Mae'r rhain yn edrych ar feysydd fel:

- Creu mwy o lefydd lleol ar gyfer natur yng Nghymru.
- Gwneud hi'n haws i bawb ymweld â gofodau natur a chael mynediad atyn nhw, yn enwedig pobl Dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Rhai o'n nodau eraill

- Cyfathrebu'n dda gyda phobl o bob cefndir.
- Dod o hyd i'r ffordd orau o ariannu a gweithio gyda sefydliadau lleiafrifoedd ethnig.
- Casglu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol am grwpiau lleiafrifoedd ethnig.


C7 Allwch chi feddwl am nodau eraill? Dywedwch wrthon ni yn y blwch isod.

Oes angen i ni newid y geiriau rydyn ni'n eu defnyddio?

Yn y ddogfen yma, rydyn ni'n defnyddio'r term 'Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' i ddisgrifio'r bobl sydd fwyaf tebygol o ddioddef hiliaeth, ond dyna'r unig beth sy'n gyffredin rhyngddyn nhw.

Weithiau, mae'r term yn cael ei dalfyrru i BAME, ond rydyn ni wedi cytuno i beidio â defnyddio'r talfyriad yn y cynllun.

C8 Ydych chi'n meddwl bod ffordd arall o ddisgrifio grwpiau o bobl sydd fwyaf tebygol o ddioddef hiliaeth?



Rydyn ni'n gobeithio eich bod chi erbyn hyn yn deall yn well beth yw **Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru** ac rydyn ni'n awyddus i glywed eich syniadau a'ch barn.

Cymerwch ran

Anfonwch eich barn bersonol aton ni neu gweithiwch mewn grŵp gyda disgyblion eraill neu ffrindiau i gael trafodaeth am y peth.

Gallwch gynnig ymateb drwy ateb y cwestiynau drwy deipio yn y blychau yn y ddogfen PDF yma a'i hanfon i'r cyfeiriad e-bost isod neu drwy'r post.

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad yma gael eu postio/e-bostio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **15 Gorffennaf 2021** ar yr hwyraf.

E-bost:

CynllunGweithreduCydraddoldebHiliol@llyw.cymru

Post:

**Y Tîm Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ**



Gofalu am wybodaeth amdanoch chi. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni wrth ymwneud â'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i benderfynu sut i gymryd eich gwybodaeth a'i defnyddio i wneud eu gwaith.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweld sut rydych wedi ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar yr ymgynghoriad, efallai y bydd yn gofyn i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth, ond os gwnaiff Llywodraeth Cymru hyn, byddwn yn gwneud yn siwr fod y sefydliadau hyn yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad yn dangos rhai o'r sylwadau a wnaeth pobl. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yn gwneud yn siwr wedyn cyn cyhoeddi nad yw'ch manylion yn cael eu cynnwys.

Dylech wybod hefyd fod modd i bobl ofyn i ni am wybodaeth (y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddiedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd neu lai.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>



Y Tîm Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

WG42951